

Tryloywder

Fel corff sy'n wynebu'r cyhoedd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd ac yn hawdd ei deall.

Rydym yn cyhoeddi ein holl [adroddiadau a chyfrifon blynyddol](#) o'r pum mlynedd diwethaf ar ein gwefan. Mewn rhannau eraill o'r adran hon, gallwch gael gwybod mwy am yr hyn a wnawn, sut yr ydym yn gweithredu, faint yr ydym yn ei wario a'n gweithlu.

Polisi a strategaeth

- Mae ein [Cytundeb Fframwaith gyda DCMS](#) yn nodi yn yr un lle y gofynion llywodraethu, goruchwylio ac adrodd rhyngom ni a DCMS.
- Mae llywodraethau ar draws y DU yn rhoi [cyfarwyddiadau polisi](#) i ni sy'n llywio ein gwaith.
- Mae ein [Cynllun Cyflwyno Treftadaeth 2033: 2023–2026](#) yn amlinellu faint y byddwn yn ei fuddsoddi a sut y byddwn yn cyflwyno nodau ein strategaeth 10 mlynedd, [Treftadaeth 2033](#), dros y tair blynedd gyntaf.

Ein dyfarniadau

- Bob dwy flynedd mae'n ofynnol i ni gyflwyno hunanasesiad yn erbyn [Safon Swyddogaethol Llywodraeth y DU ar gyfer Rheoli Grantiau](#). Yn 2024 rhoddodd Swyddfa'r Cabinet sgôr gyffredinol o 93.2% i'n cyflwyniad, gan ein rhoi yn y categori 'Gorau' ar gyfer rheoli grantiau.
- Mae deddfwriaeth y Loteri Genedlaethol yn rhoi'r pŵer i ni [wahodd ceisiadau](#) ar gyfer dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol. Pan wneir penderfyniad i wahodd cais, rydym yn cyhoeddi'r manylion ar ein gwefan.
- Ystyrir bod rhai o'n dyfarniadau'n gymorthdaliadau. Rydym yn cyhoeddi manylion y rhain ar ein [tudalen rheoli cymhorthdal](#).

Caffael, tendrau a thrafodion

- Yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet, rydym yn cyhoeddi [gwybodaeth am gaffael](#). Gellir dod o hyd i bob gwahoddiad i dendro ar wasanaeth [Darganfod contractau](#) neu wasanaeth [Dod o hyd i wasanaeth tendro GOV.UK](#), gan ddibynnu ar faint y tendr.
- Yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet, rydym hefyd yn cyhoeddi manylion [trafodion dros £500](#).

Cofrestrau Buddiant

- Mae holl aelodau ein Bwrdd, ein pwyllgorau, a'n tîm Gweithredol yn gwneud eu buddiannau'n gyhoeddus drwy ein [Cofrestr Buddiannau – Bwrdd a phwyllgorau](#) a'n [Cofrestr Buddiannau – Tîm Gweithredol](#).

Cydraddoldeb

- Mae ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiad yn seiliedig ar [Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban](#) a [Chynllun Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon](#).

Ein pobl

- Rydym yn postio ein holl fanylion diweddar am strwythur, cyflogau a threuliau staff yn ein [hadroddiadau blynyddol](#).
- Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am [amrywiaeth ein gweithlu](#), [y bwlch cyflog rhwng y rhywiau](#) ac [amser cyfleuster undeb llafur](#).

Rhyddid Gwybodaeth

- Rydym yn cyhoeddi cofnod o'r [ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth](#) yr ydym wedi'u derbyn ac yn diweddarau'r rhestr hon bob chwe mis.
- Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi [Cynllun Cyhoeddiadau](#) sy'n disgrifio'r wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi fel mater o drefn, ble y gallwch ddod o hyd iddi a p'un a ydym yn codi tâl amdani ai beidio. Nid yw'n rhestr o'n cyhoeddiadau: mae'n disgrifio'r mathau o wybodaeth a gyhoeddwn.

Os oes gwybodaeth benodol heb ei chynnwys yma yr hoffech ei gweld neu ei chyrchu, anfonwch e-bost foi@heritagefund.org.uk.

Adroddiadau blynyddol

[See all updates](#)

Archif o'n hadroddiadau blynyddol.

- [Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol Adroddiad Blynyddol 2024–2025](#)
- [Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol Adroddiad Blynyddol 2023–2024](#)
- [Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol Adroddiad Blynyddol 2022–2023](#)
- [Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol Adroddiad Blynyddol 2021–2022](#)
- [Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol Adroddiad Blynyddol 2020–2021](#)
- [Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol Adroddiad Blynyddol 2019–2020](#)
- [Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol Adroddiad Blynyddol 2018–2019](#)

- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2016–2017](#)
- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2015–2016](#)
- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2014–2015](#)
- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2013–2014](#)
- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2012–2013](#)
- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2010–2011](#)
- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2009–2010](#)
- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2008–2009](#)
- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2007–2008](#)
- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2006–2007](#)
- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2004–2005](#)
- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2003-2004](#)
- [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Adroddiad Blynyddol 2002–2003](#)

Cyfarwyddiadau Polisi

10/02/2021

[See all updates](#)

Mae llywodraethau ledled y DU yn rhoi cyfarwyddiadau polisi i ni lywio ein gwaith - maen nhw'n 'faterion i'w hystyried'.

	Atodiad	Maint
PDF	Gweld UK government policy directions, plus additional for England as PDF (140.46 KB)	140.46 KB
PDF	Gweld Policy directions in relation to Wales as PDF (61.05 KB)	61.05 KB
PDF	Gweld Policy directions in relation to Scotland as PDF (103.94 KB)	103.94 KB

Mae cyfarwyddiadau'r DU yn berthnasol i bob cyllid a wnaed gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn y cyfarwyddiadau polisi yn flynyddol, drwy ein [Hadroddiad Blynyddol a'n Cyfrifon](#) a gyhoeddir ar wefan llywodraeth y DU. Mae'r cyfarwyddiadau polisi yn berthnasol i gronfeydd y Loteri Genedlaethol ac nid cymorth grant. Mae'r Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol yn gorchymyn yr hyn y gallwn ac na allwn ei wneud gyda grant mewn cymorth.

Mae'r cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Lloegr yn cael eu gosod gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae cyfarwyddiadau datganoledig yn berthnasol yn ychwanegol. Mae gweinidogion yn y gwledydd datganoledig yn defnyddio'u pwerau i roi cyfarwyddiadau ychwanegol i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae cyfarwyddiadau polisi i Gymru a'r Alban. Gallwch weld a lawrlwytho pob cyfeiriad polisi o'r dudalen hon.

Aeth cyfarwyddiadau polisi drafft Gogledd Iwerddon allan i ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror 2022. Ystyriodd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yr ymatebion, gan ymgysylltu â'r Adran Cymunedau ym mis Medi 2022 ar ddrafft diwygiedig. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2026 mae Cyfarwyddiadau Polisi Gogledd Iwerddon yn dal i aros am gymeradwyaeth gan y weinidogaeth.

Cytundeb Fframwaith gyda DCMS

31/08/2017

[See all updates](#)

Ym mis Mai 2024 gwnaethom gwblhau ein Cytundeb Fframwaith newydd gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Mae dogfen fframwaith Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol 2024–2027 bellach ar gael yn adran [dogfennau fframwaith DCMS ar GOV.UK](#).

Mae'r cytundeb hwn yn disodli'r Cytundeb Rheoli a oedd gennym yn flaenorol gyda DCMS. Mae'n rhan o raglen drawslywodraethol i ddiweddarau'r cytundebau sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng cyrff hyd braich (CHB) a'u rhiant-adrannau. Mae Swyddfa'r Cabinet bellach yn ei gwneud yn ofynnol i bob CHB gael Cytundeb Fframwaith rhwng y rhiant-adrannau a'r CHB i lywodraethu'r berthynas rhwng y CHB, yr adran noddi a gweddill y llywodraeth. Mae'r Cytundebau Fframwaith hyn wedi'u safoni i raddau helaeth ar draws CHB.

Mae'r Cytundeb yn nodi yn yr un lle y gofynion llywodraethu, goruchwyllo ac adrodd rhyngom ni a DCMS. Ei nod yw sicrhau a fframio ein perthynas â DCMS ond nid yw'n newid sut rydym yn gweithio nac yn ymgysylltu â'n gilydd o ddydd i ddydd. Nid yw'n newid ein cyfarwyddiadau polisi nac yn disodli deddfwriaeth sylfaenol ond mae'n ddefnyddiol i'n hatgoffa am y gwaith adrodd rheolaidd a wnawn ar gyfer DCMS a sut rydym yn gweithio gyda nhw ar draws y sefydliad.

Sut y byddwn yn defnyddio deallusrwydd artifisial

19/06/2025

[See all updates](#)

Mae'r dudalen hon yn nodi ein hymagwedd at deallusrwydd artifisial (AI). Ni fwriedir iddi ddarparu arweiniad manwl ar gymhwyso AI, ond i ddarparu sail ar gyfer polisiâu a chynghor pellach.

Diffiniad

Mae llawer o ddiffiniadau o AI. Rydym yn ei ddefnyddio i gyfeirio at systemau awtomeiddio a bwerir gan gyfrifiaduron i gyflawni tasgau sydd yn aml yn cynnwys darogan neu wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys technolegau fel adnabod delweddau a thestun, modelau iaith mawr (LLM) a'r gallu i gynhyrchu testun, delweddau, sain a fideo.

Ein man cychwyn ymgysylltu ag AI

Byddwn bob amser yn gweithredu'n gyfreithlon, yn foesebol ac yn gyfrifol yn ein defnydd o AI. Fel corff hyd braich o Lywodraeth y DU, rydym yn edrych yn gyntaf ac yn bennaf ar eu canllawiau gan gynnwys y deg egwyddor a nodir yn [Fframwaith AI Cynhyrchiol Llywodraeth EF](#). Rydym yn ymrwmo i ddilyn yr egwyddorion hyn wrth i ni arbrofi gyda'r defnydd o AI i gefnogi cyflawniad ein strategaeth, [Treftadaeth 2033](#). Fel ariannwr mwyaf treftadaeth y DU, sydd wedi'i ymddiried â'r gwaith o wneud penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar lawer o sefydliadau a phobl, mae gennym gyfrifoldeb i weithredu'n onest ac yn dryloyw yn ein defnydd o AI.

At hynny, fel cyflogwr ac fel rheolwr data, prosesydd a chyhoeddwr data grantiau, rhaid i ni feddwl yn ofalus am pryd a sut rydym yn defnyddio technolegau newydd a phwerus. Credwn mai dim ond drwy gyfuno AI â chwilfrydedd dynol, greddf a sgiliau datrys problemau y byddwn yn gwireddu ei fanteision posibl.

Ein hymrwymiad i AI cyfrifol, yn unol â'n gwerthoedd

Uchelgeisiol

- Byddwn yn chwilfrydig, yn llawn dychymyg ac yn greadigol am yr hyn y gall AI ei wneud i'n helpu i gyflwyno'r uchelgeisiau a nodir yn [Treftadaeth 2033](#).
- Byddwn yn parhau i ddysgu gan eraill sydd ar flaen y gad o ran AI i addasu ein ffordd o weithio ac i ymestyn ein nodau.
- Byddwn yn sicrhau bod ein staff yn cael eu cefnogi a'u grymuso i ymdopi â newidiadau mewn technoleg AI, gan gynnwys hyfforddiant priodol.

Cynhwysol

- Bydd ein defnydd o AI yn cyd-fynd â goruchwyliaeth ddynol effeithiol a chymesur, sy'n ystyried gwahanol safbwyntiau a phrofiadau ein staff a'n rhanddeiliaid o lygad y ffynnon.
- Lle y byddwn yn dewis defnyddio AI, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n foesebol, yn gydnerth, yn gadarn ac yn ddiogel i bawb. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio AI i gynyddu cynhwysiad a hygyrchedd. A byddwn yn asesu cywirdeb, dibynadwyedd a chysondeb yr offer AI rydym yn eu defnyddio ac yn dod ar eu traws.
- Byddwn yn ymwybodol bod tuedd ac anghydraddoldeb yn bodoli wrth ddatblygu neu ddefnyddio offer AI a byddwn yn rhagweithiol wrth nodi, cyfathrebu a mynd i'r afael â'r rhain.

Cydweithredol

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a chymheiriaid i rannu arbenigedd a phrofiad er budd cwsmeriaid a staff.
- Rydym yn disgwyl i'n partneriaid a'n cyflenwyr gymryd y gwerthoedd a'r mesurau diogelu hyn yn erbyn niwed posibl technolegau AI yr un mor ddifrifol ag yr ydym ni.
- Byddwn yn ystyried hawliau ein holl randdeiliaid wrth ddefnyddio AI gan gynnwys ymgeiswyr, partneriaid ariannu, staff a chyflenwyr.

Dibynadwy

- Byddwn yn sicrhau bod ein defnydd o AI yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data ac yn parchu hawliau unigolion. Byddwn yn gweithio gydag offer AI dim ond pan fydd gennym hyder yn eu heffeithiolrwydd a'u cywirdeb a'n gallu i reoli unrhyw risgiau y maent yn eu cyflwyno.
- Byddwn yn dryloyw ynghylch ble rydym wedi defnyddio offer AI yn fwriadol, gan nodi lle bo modd pryd a sut mae cynnwys neu ddata wedi'i gynhyrchu gan beiriant. Rydym yn disgwyl i'n rhanddeiliaid wneud yr un peth.
- Byddwn yn ceisio cydbwysio effaith amgylcheddol negyddol defnyddio offer AI yn erbyn eu manteision.

Deisyfu ceisiadau am arian y Loteri Genedlaethol

[See all updates](#)

Mae deddfwriaeth y Loteri Genedlaethol yn rhoi p?er i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol deisyfu ceisiadau i ddsbarthu arian y Loteri Genedlaethol.

Diweddarwyd y dudalen ddiwethaf: 23 Mai 2023

Dim ond lle mae'n amlwg mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni un o amcanion strategol y Gronfa y mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn defnyddio ei ph?er cydgefnogaeth.

Wrth sôn am ddeisyfu ceisiadau, mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn sicrhau:

- Nid yw unrhyw un sy'n ymwneud â datblygu'r achos dros y undod, paratoi'r meini prawf a chyfathrebu â'r sefydliad sy'n cael ei nodi yn ymwneud ag asesu'r cais a gafwyd na phenderfynu a yw'r cais a gafwyd wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.
- Mae'r person(au) sy'n gwneud penderfyniad ar gais a gafwyd yn gwybod:
- Bod y cais wedi'i nodi.
- Gan bwy y cafodd ei nodi.
- Pa rôl (os o gwbl) y mae'r person a nododd y cais wedi'i chael wrth ei asesu.
- Mae'n ei gwneud yn glir i'r ymgeisydd/ymgeiswyr a nodwyd:
- Bydd ceisiadau wedi'u cyfuno yn cael eu hasesu yn ôl eu rhinweddau yn erbyn y meini prawf a bennwyd ymlaen llaw. Gallant fethu os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf a'r safonau ansawdd disgwylidig a nodir ar faterion fel gwerth am arian a risg.
- Ni roddir triniaeth ffafriol iddynt.
- Asesir pob cais, a nodir neu fel arall, yn ôl eu rhinweddau unigol.

Pan wneir penderfyniad i geisio cais, bydd y canlynol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol:

- Disgrifiad o swm y prosiect a'r grant.
- Yr amcan strategol y mae'r undod yn ceisio mynd i'r afael ag ef.

- Y rhesymau dros fabwysiadu'r dull cysoni.
- Y meini prawf a'r safon ansawdd ddisgwyliedig y bydd y cais a gaiff ei nodi yn cael ei asesu yn ei erbyn.

Rheoli cymhorthdal

04/07/2022

[See all updates](#)

O dan ofynion tryloywder Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 mae'n ofynnol i ni gyhoeddi manylion dyfarniadau unigol y gellid ystyried eu bod yn gymorthdaliadau.

Rydym yn gorff cyhoeddus ac yn ariannwr grant penodedig mwyaf ar gyfer treftadaeth y DU.

Fel Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, rydym yn dosbarthu grantiau'r Loteri Genedlaethol o £10,000 i £10miliwn a mwy, gan ariannu prosiectau sy'n cynnal ac yn trawsnewid treftadaeth y DU.

Fel y Gronfa Treftadaeth, rydym yn dosbarthu arian nad yw'n dod o'r Loteri, gan gynnwys cymorth grant / cyllid gan y llywodraeth a benthyciadau, i sefydliadau treftadaeth.

Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022

Ers i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd ar 1 Ionawr 2021, mae llywodraeth y DU wedi deddfu deddfwriaeth ddomestig i ddisodli cyfraith yr UE: **Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 ('y Ddeddf')**.

Nod y Ddeddf yw rheoli darpariaeth cymorthdaliadau - mae'n atal cystadleuaeth annheg neu effeithiau ar fasnachu a buddsoddi. Gallai hyn ddigwydd os byddai sefydliad yn derbyn cyllid o adnoddau gwladol (sy'n cynnwys ein harian ni, gan fod ein cronfeydd yn arian cyhoeddus) tra y byddai sefydliad arall yn defnyddio ei gyllid preifat ei hun yn unig.

Dylech ymgyswrtu â gofynion y drefn rheoli cymorthdaliadau newydd wrth ystyried [gwneud cais i ni](#).

Bydd y Ddeddf mewn grym yn llawn o 4 Ionawr 2023. Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), wedi cyhoeddi [arweiniad drafft ar weithrediad y Ddeddf](#). Mae'r arweiniad hwn yn helpu awdurdodau cyhoeddus, fel y Gronfa Treftadaeth, i ddyfarnu cymorthdaliadau mewn ffordd sy'n isafu unrhyw effeithiau negyddol ar gystadleuaeth a buddsoddiad, yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd effeithiol ac effeithlon o arian cyhoeddus. Caniateir y cymorthdaliadau hyn ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y Ddeddf.

Mae'n rhaid i gymorthdaliadau uwchben trothwy ariannol penodol (£100,000 ar hyn o bryd) gael eu cyhoeddi ar ein gwefan ein hunain, ac ar [gronfa ddata a gedwir gan BEIS](#).

Mae'n bosib y bydd grantiau llai y tu hwnt i gwmpas y Ddeddf os nad ystyrir eu bod yn gymhorthdal. Er enghraifft, gan eu bod yn annhebygol o gael effaith ar fasnachu neu fuddsoddi.

Beth yw cymhorthdal?

Mae pedair nodwedd allweddol y mae'n rhaid iddynt oll fod yn bresennol er mwyn i ariannu gael ei ystyried yn gymhorthdal:

1. cyfraniad ariannol

2. wedi'i roi gan awdurdod cyhoeddus o gyllid cyhoeddus
3. wedi'i roi i sefydliad, gan roi mantais economaidd iddynt nad yw ar gael ar delerau'r farchnad
4. yn effeithio ar, neu a allai effeithio ar, gystadleuaeth neu fuddsoddiad o fewn y DU, neu fasnachu neu fuddsoddiad rhwng y DU a gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU

Os yw ein hariannu'n cyfateb i **bob un o'r pedair nodwedd allweddol**, mae hynny'n golygu ei fod yn gymhorthdal. Er mwyn i gymhorthdal gael ei ganiatáu mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r [saith egwyddor gyffredin fel y nodir ar wefan llywodraeth y DU](#).

Cyfraith Cymorth Gwladol yr UE

Bydd cyfraith cymorth gwladol flaenorol yr UE yn dal i fod yn berthnasol i rai grantiau a ddyfarnwyd cyn 31 Rhagfyr 2020, ac mae'n bosib y bydd rhai ystyriaethau ychwanegol yng Ngogledd Iwerddon.

Gellir dod o hyd i arweiniad cymorth gwladol y DU ar [wefan llywodraeth y DU](#).

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â dyfarniadau unigol, 2026

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â grant i Manchester Historic Buildings Trust

Prosiect: Elizabeth Gaskell's House – Writing the Future

Dyddiad y grant: 30 Mawrth 2026

Cyfeirnod: HA-25-01508

Granti: Manchester Historic Buildings Trust

Dyddiad dod i ben y grant: 31 Awst 2028

Categori buddiolwr: Mentrau bach a chanolig eu maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £232,899

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Mae'n rhaglen ariannu sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae'n cefnogi adferiad byd natur, cynladwyedd amgylcheddol a gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth, ac yn cryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnherth yn ariannol. ?Mae hyn oll yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.??

Diben y cymhorthdal: Nod y prosiect cydnerthedd 26 mis hwn (Ebrill 2026 i Fai 2028) yw cryfhau cynladwyedd T? Elizabeth Gaskell trwy strategaethau busnes a chodi arian newydd, uwchraddiadau seilwaith a rhaglen datblygu cynulleidfaoedd. Y ffocws yw cynladwyedd sefydliadol, gyda'r nod o sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa fwy cadarn i ofalu am y safle rhestredig Gradd II* ac ennyn diddordeb mwy o bobl leol ac ymwelwyr mewn treftadaeth Elizabeth Gaskell.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.??

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Nod y prosiect hwn yw sicrhau dyfodol ffyniannus a chynaliadwy i D? Elizabeth Gaskell, gan gryfhau cysylltiadau ymwelwyr newydd â threftadaeth lenyddol Manceinion a dathlu effaith Elizabeth Gaskell, drwy:

- Ddatblygu a sefydlu cynllun busnes cynaliadwy newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys cwmpasu syniadau cynhyrchu incwm i wella cynladwyedd ariannol ac ymgynghori â rhanddeiliaid i lywio cynllunio gweithgareddau.
- Cynhyrchu a gweithredu strategaeth codi arian newydd i wella cynladwyedd ariannol.
- Gwelliannau seilwaith brys i sicrhau arbedion cost tymor hwy, arferion gwaith effeithlon a chynladwyedd amgylcheddol.
- Rhaglen weithgareddau datblygu cynulleidfaoedd proffil uchel drwy gydol 2027 sy'n cysylltu cynulleidfaoedd lleol a chenedlaethol newydd â hanes llenyddol Manceinion ac yn dathlu 10 mlynedd ers i Manceinion ddod yn Ddinas Llenyddiaeth UNESCO.

Gwybodaeth rheoli cymhorthdal mewn perthynas â grant i Parochial Church Council of the Ecclesiastical Parish of St James, Westminster

Prosiect: The Wren Project

Dyddiad y grant: 26 Mawrth 2026

Cyfeirnod: NL-23-00042

Granti: The Parochial Church Council of the Ecclesiastical Parish of St James, Westminster

Dyddiad dod i ben y grant: 30 Medi 2031

Categori buddiolwr: Mentrau bach a chanolig eu maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £4,725,000

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Mae'n rhaglen ariannu sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae'n cefnogi adferiad byd natur, cynnaladwyedd amgylcheddol a gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth, ac yn cryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnherth yn ariannol. ?Mae hyn oll yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.????

Diben y cymhorthdal: Diben y cymhorthdal hwn yw gwaith cadwraeth ar Eglwys Gradd I St James's Piccadilly Eglwys Loegr, gan ei gwneud yn gwbl hygyrch yn ffisegol ac yn ddeallusol ac ehangu'r ddealltwriaeth ehangach o'i threftadaeth.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.??

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y grantï ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Bydd y prosiect pum mlynedd (o fis Ebrill 2026 i fis Mai 2031) yn gwneud gwaith cadwraeth ac aildrefnu helaeth o fewn yr eglwys Gradd I. Bydd yn cyflawni yn erbyn eu pedwar amcan strategol i ehangu eu croeso radical, dathlu gogoniant pensaernïol a hanes nodedig yr eglwys a chryfhau'r model busnes, gan ddatblygu ffrydiau incwm newydd.

Bydd gwaith allanol yn cynnwys:

- ailagor drysau gorllewinol yr eglwys
- atgyweirio, glanhau ac ail-bwyntio'r drychiadau gorllewinol a gogleddol
- trin gwaith metel agored
- atgyweirio'r pigyn ffibr gwyrdr
- adfer pennau uchaf y t?r

Bydd y cerrig llyfr ffabrig hanesyddol yn y fynwent wedi'i phalmantu, sydd wedi'u dioddef yn sgil nifer fawr o bobl gerdded drostynt a defnydd masnachol o'r safle fel marchnad fwyd stryd, hefyd yn cael eu hatgyweirio a'u gwarchod.

Yn fewnol, yn ogystal ag atgyweiriadau plastr, ailaddurno ac ail-euro, bydd newidiadau'n gwella gallu'r eglwys i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau er mwyn cynhyrchu mwy o incwm, sydd ar hyn o bryd wedi'u cyfyngu gan gyfleusterau annigonol.

Bydd adeiladau Stryd Jermyn a Piccadilly (sydd hefyd yn Radd I ond yn llai o ran eu harwyddocâd) yn cael eu hadnewyddu a'u hymestyn, gan wneud y safle'n fwy cynaliadwy a hygyrch. Bydd adeilad Piccadilly yn cael ei ymestyn i'r dwyrain a'r de i alluogi trawsnewid yn swyddfeydd a chyfleusterau i gefnogi gweithgareddau'r eglwys.

Bydd y fynwent yn cael ei hail-dirlunio a'i hatgyweirio i greu mannau cyhoeddus mwy deniadol, hygyrch a defnyddiadwy. Rhoddir blaenoriaeth i wella bioamrywiaeth ar draws y safle, ac mae'r cynlluniau'n osgoi tarfu ar wreiddiau coed ac archaeoleg yn ofalus.

Bydd rhaglen ymgysylltu'n adeiladu ar themâu allweddol Myfyrio, Darganfod, Creu, Cyfarfod a Gweithredu. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cyfleoedd cyd-greu gyda grwpiau targed blaenoriaeth a rhaglenni cymunedol gyda ffocws ar ymgysylltiad cyfranogol a llesiant. Bydd rhaglen datblygu sgiliau a hyder hefyd yn cael ei chynnig i grwpiau targed. Bydd rhaglen gyhoeddus eang o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd ac adnoddau ar-lein ar gyfer darganfod hunan-

dywysedig yn cefnogi'r gweithgareddau.

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â grant i Llangollen Railway Trust Ltd

Prosiect: Sharing Our Heritage Through Engineering Innovation

Dyddiad y grant: 19 Mawrth 2026

Cyfeirnod: HA-25-01439

Granti: Llangollen Railway Trust Ltd

Dyddiad dod i ben y grant: 31 Mawrth 2028

Categori buddiolwr: Mentrau bach a chanolig eu maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £239,680

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Mae'n rhaglen ariannu sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae'n cefnogi adferiad byd natur, cynaladwyedd amgylcheddol a gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth, ac yn cryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnherth yn ariannol. ?Mae hyn oll yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.??

Diben y cymhorthdal: Bydd y cymhorthdal hwn yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau peirianeg hanfodol ac ennyn diddordeb y cyhoedd yn fwy yn Rheilffordd Llangollen er mwyn gwella cynaladwyedd sefydliadol a diogelu'r dreftadaeth ar gyfer y dyfodol.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.??

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Nod y prosiect yw arddangos dull arloesol ac ymarferol o leihau effaith carbon gweithrediadau ager ac ar yr un pryd agor rhan o dreftadaeth y rheilffordd a oedd gynt yn gudd i'r cyhoedd. Drwy'r prosiect hwn, bydd y granti yn gosod boeler trydan cyn-gynhesu a system ddrafftio well, gan leihau'r defnydd o lo, allyriadau a phwysau gweithredol ar locomotifau yn sylweddol. Gallai cwblhau'n llwyddiannus ganiatáu i hyn gael ei gyflwyno i ymddiriedolaethau rheilffyrdd treftadaeth eraill ac felly creu manteision ar eu cyfer.

Ochr yn ochr â'r gwaith peirianeg, byddant yn creu mynediad cyhoeddus diogel i'r Depo P?er Mudol – adeilad peirianeg prin o'r oes ager gydag offer o'r cyfnod – ac yn datblygu dehongli dwyieithog sy'n adrodd hanes locomotifau'r sefydliad, eu harloesedd amgylcheddol a'r gwirfoddolwyr medrus sy'n eu cynnal a'u cadw.

Bydd rôl Allgymorth a Dysgu newydd yn eu galluogi i ennyn diddordeb ysgolion, colegau a grwpiau cymunedol, gan ddefnyddio'r prosiect fel catalydd ar gyfer dysgu STEAM a chyfranogiad ehangach. At ei gilydd, nod y prosiect yw diogelu treftadaeth hanfodol, ymateb i heriau hinsawdd, ysbrydoli cynulleidfaoedd newydd, a chryfhau cynladwyedd hirdymor gweithrediadau ager Rheilffordd Llangollen a Chorwen.

Gwybodaeth rheoli cymhorthdal mewn perthynas â grant i Gyngor Dosbarth Rother

Prosiect: Transforming Heritage: Community, Creativity & Skills

Dyddiad y grant: 3 Chwefror 2026

Cyfeirnod: NL-23-00111

Granti: Cyngor Dosbarth Rother

Dyddiad dod i ben y grant: 30 Mehefin 2029

Categori buddiolwr: Mentrau bach a chanolig eu maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £7,875,683

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) bŵer statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Mae'n rhaglen ariannu sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae'n cefnogi adferiad byd natur, cynladwyedd amgylcheddol a gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth, ac yn cryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnherth yn ariannol. Mae hyn oll yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal: Bydd y cymhorthdal hwn yn cefnogi'r gwaith o adfer De La Warr Pavilion, adeilad rhestredig Gradd I o bwys cenedlaethol a rhyngwladol i'r mudiad Modernistaidd. Dyma oedd yr adeilad cyhoeddus cyntaf i gael ei ddylunio yn yr arddull Ryngwladol yn y Deyrnas Unedig, gan Erich Mendelsohn mewn cydweithrediad â Serge Chermayeff, ac fe'i gomisiynwyd gan y 9fed Iarll De La Warr ym 1933.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.??

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.

Crynodeb o'r prosiect: Bydd cam un yn ymdrin â gwaith atgyweirio ar do'r awditoriwm, sydd mewn cyflwr gwael, gwaith atgyweirio a chadwraeth ar risiau'r de a'r gogledd, atgyweiriadau ar do'r cyntedd a thrwsio waliau concrit yr awditoriwm fel y bo angen. Bydd gwaith metel ac arwyddion yn cael eu hatgyweirio a'u hadfer, a bydd ffenestri'r ffasâd gorllewinol yn cael eu newid. Bydd mynediad i'r adeilad yn cael ei wella'n fawr trwy fynediad newydd heb risiau i'r (brif) fynedfa ogleddol a bydd mynedfa ddeheuol newydd sy'n gwbl hygyrch. Bydd liffet o'r 1970au ym mynedfa'r awditoriwm

sy'n anghydnaws â'r dyluniad gwreiddiol yn cael ei dynnu allan, a bydd lifft newydd yn cael ei osod yn y cyntedd, gan roi mynediad i'r lloriau uchaf. Bydd mynediad gwastad gwell i'r awditoriwm yn cynyddu'r lle sydd ar gael i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Bydd cyfleusterau ymwelwyr hefyd yn cael eu hadnewyddu a bydd toiledau'n cael eu hadnewyddu ac yn cynnwys toiled Changing Places.

Bydd y prosiect yn gwella perfformiad o ran mynediad, sain a'r amgylchedd yn y gofod awditoriwm a bydd yn adfer ac yn ailosod nodweddion gwreiddiol a gollwyd.

Mae cam un hefyd yn cynnwys gwaith i wella cynaliadwyedd amgylcheddol, gan gyflwyno paneli solar ar do'r awditoriwm, disodli gwydr anghyson a chyfnewid gwasanaethau mecanyddol a trydanol yn barod ar gyfer gosod pwmp gwres aer yn cam tri. Bydd goleuadau yn cael eu uwchraddio i LED, a bydd y system trin aer yn nwylo'r oriel ar y llawr cyntaf yn cael ei disodli.

Mae gweithgareddau wedi'u mireinio ac erbyn hyn y cynulleidfaoedd targed yw:

- pobl ifanc
- ysgolion/addysg bellach
- cymunedau gwledig a difreintiedig
- cymunedau wedi'u hymylu
- cymunedau ag anghenion mynediad ac anghenion llesiant
- pobl sydd â diddordeb mewn Moderniaeth

Dros dair blynedd, mae'r prosiect yn anelu at ennyn diddordeb dros 5,500 o gyfranogwyr gweithredol a thros 700,000 o bobl fel cynulleidfa ar gyfer gwahanol weithgareddau. Bydd De La Warr Pavilion yn gweithio gyda nifer o sefydliadau, llawer ohonynt yn lleol, i gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys arddangosfeydd wedi'u cyd-greu, perfformiad promenâd, allgymorth, rhaglenni a arweinir gan bobl ifanc, teithiau tywysedig, adnoddau addysgu a phenwythnos ail-lansio mawr.

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â dyfarniadau unigol, 2025

Gwybodaeth rheoli cymhorthdal mewn perthynas â grant i Tyne and Wear Building Preservation Trust Limited

Prosiect: Menter Treftadaeth: Restore and Reuse Keelmen's Hospital as Affordable Housing

Dyddiad y grant: 15 Rhagfyr 2025

Cyfeirnod: HZ-23-00074

Granti: Tyne and Wear Building Preservation Trust Limited

Dyddiad dod i ben y grant: 31 Gorffennaf 2028

Categori buddiolwr: Mentrau bach a chanolig eu maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £5,067,702

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Mae ein grantiau Menter Treftadaeth yn helpu prosiectau i gyflawni twf economaidd drwy fuddsoddi mewn treftadaeth. Maent yn cefnogi sefydliadau masnachol sy'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol i'w helpu i achub adeiladau a safleoedd hanesyddol sydd wedi'u hesgeuluso a'u dychwelyd i ddefnydd cynhyrchiol hyfyw.

Dylunnir y rhaglen i bontio'r bwch ariannu sy'n atal ased hanesyddol y mae angen ei atgyweirio rhag cael ei ddychwelyd i ddefnydd buddiol a masnachol. Mae'r achos dros roi arian grant yn seiliedig ar y diffyg cadwraeth, lle mae gwerth presennol ased treftadaeth ynghyd â'r gost o'i ddychwelyd i ddefnydd yn fwy na gwerth yr ased ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau.

Mae'r rhaglen yn gwarchod ac yn gwerthfawrogi treftadaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol, gan gefnogi gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth, ac yn gryfhau treftadaeth i fedru addasu a bod yn gydnerth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae hyn oll yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal: Bydd y prosiect yn dod ag adeilad rhestredig Gradd II* segur sydd ar y gofrestr Treftadaeth mewn Perygl yn ôl i ddefnydd am y tro cyntaf ers 15 mlynedd. Bydd buddsoddiad cyfalaf yn adfer ac yn adnewyddu'r adeilad fel tai fforddiadwy. Ar ôl ei adfer, bydd Keelmen's Hospital yn cynnwys 20 o fflatiau: 10 uned un ystafell wely a 10 uned dwy ystafell wely.

Bydd y cymhorthdal yn rhoi defnydd cynaliadwy hirdymor i'r ased treftadaeth, yn tynnu'r adeilad oddi ar y gofrestr Treftadaeth mewn Perygl genedlaethol ac yn rhoi terfyn ar y bygythiad i'r adeilad o ganlyniad i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r defnydd arfaethedig o'r adeilad yn ymateb yn uniongyrchol i'r galw mawr a rhestrau aros hir am dai fforddiadwy yn Newcastle. Mae'r galw am dai fforddiadwy yn Newcastle wedi'i gadarnhau gan adran 'Fairer Housing Unit' y cyngor'.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Bydd y prosiect yn atgyweirio'r adeilad hanesyddol yn llawn mewn modd sy'n briodol i'w arwyddocâd, gan ddefnyddio deunyddiau a sgiliau traddodiadol a fydd yn sefyll prawf amser. Bydd y gwaith cyfalaf yn ymdrin ag adfer cragen yr adeilad yn llawn gan gynnwys atgyweiriadau i'r to, y waliau a'r lloriau, ffenestri a drysau newydd, yn ogystal ag ailfodelu cyffredinol i ddarparu ar gyfer 20 uned (sy'n cynnwys cymysgedd o fflatiau un a dwy ystafell wely) am rent fforddiadwy.

Bydd y gwaith hefyd yn sicrhau bod yr adeilad yn ynni effeithlon ar gyfer deiliaid yn y dyfodol. Bydd dull sy'n rhoi'r ffabrig yn gyntaf yn cael ei ddefnyddio wrth ystyried gwella effeithlonrwydd yr adeilad a bydd ynni carbon isel yn cael ei ddarparu trwy bympiau gwres ffynhonnell aer, gwresogi o dan y llawr a phaneli ffotofoltäig ar lethrau mewnol drychiadau'r cwrt.

Drwy gyflwyno eu datganiad gweithgarwch yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ceisio ennyn diddordeb pobl yn hanes yr adeilad, y Keelmen a threftadaeth ddiwydiannol ehangach y Tyne. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gweithredu o Ganolfan Dreftadaeth St Mary's, sydd ar draws Afon Tyne yn Gateshead, a bydd hon yn cael ei defnyddio fel canolfan i ennyn diddordeb plant ysgol a thrigolion mewn sgysiau, teithiau cerdded, darlithoedd ac ymweliadau. Bydd rhaglen hyfforddi sgiliau treftadaeth yn canolbwyntio ar blastro calch gan ei fod yn elfen fawr o'r ddarpariaeth gyfalaf. Bydd adnodd digidol yn cael ei greu i ddarparu mynediad hirdymor at wybodaeth am yr adeilad a'i hanes.

Bydd prosiect hanes llafar mewn partneriaeth â Remembering the Past ac Uned Hanes Llafar Prifysgol Newcastle a fydd yn ymchwilio, cofnodi, archifo ac yn rhannu hanesion llafar sy'n ymwneud â hanes yr ysbyty ar ôl y rhyfel yn cael ei gyflwyno hefyd.

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â grant i Wiltshire Archaeological and Natural History Society

Prosiect: Assizes for Devizes: Unlocking Wiltshire's Stories

Dyddiad y grant: 3 Rhagfyr 2025

Cyfeirnod: NL-22-00025

Granti: Wiltshire Archaeological and Natural History Society

Dyddiad dod i ben y grant: 31 Mawrth 2031

Categori buddiolwr: Mentrau bach a chanolig eu maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £8,445,566

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Mae'n rhaglen ariannu sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae'n cefnogi adferiad byd natur, cynladwyedd amgylcheddol a gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth, ac yn cryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnerth yn ariannol. ?Mae hyn oll yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.??

Diben y cymhorthdal: Bydd y prosiect hwn yn trawsnewid adeilad Brawdlys Devizes Gradd II* restredig adfeiliedig yn gartref newydd a hygyrch i Amgueddfa Wiltshire, gan ddiogelu treftadaeth o bwys cenedlaethol a chreu canolfan ddiwylliannol a chymunedol bwysig yng nghanol Devizes.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.??

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Dan arweiniad Cymdeithas Archeolegol a Hanes Naturiol Wiltshire, mae'r prosiect yn dwyn ynghyd ddau ased treftadaeth eithriadol o bwysig: casgliadau dynodedig yr amgueddfa, gan gynnwys un o gasgliadau archeoleg Oes yr Efydd pwysicaf yn Lloegr, a'r Frawdlys o 1835, adeilad dinesig tirnod sydd wedi bod ar Gofrestr Treftadaeth mewn Perygl Historic England ers dros 25 mlynedd.

Dros y cam cyflwyno pum mlynedd (2026–2031), bydd y prosiect yn ymgymryd â gwaith cyfalaf helaeth i atgyweirio ac adfer y Frawdlys, gan gynnwys atgyweiriadau adeileddol, gwaith cadwraeth i'r to a'r gwaith maen, gosod gwasanaethau modern, mynediad di-risiau a gosodiad mewnol llawn. Bydd yr adeilad yn cael ei addasu i fod yn gartref i orielau parhaol a dros dro, manau dysgu a chymunedol, caffi, siop, swyddfeydd a chyfleusterau digwyddiadau, tra'n cadw a dehongli ei gymeriad hanesyddol.

Ochr yn ochr â'r gwaith cyfalaf, bydd rhaglen weithgareddau ac ymgysylltu eang yn cynnwys cymunedau lleol, pobl ifanc, teuluoedd, pobl anabl, ysgolion a gwirfoddolwyr. Bydd gweithgareddau'n canolbwyntio ar gyd-greu, allgymorth i gymunedau gwledig ac ynysig yn gymdeithasol, gwella'r ddarpariaeth ddysgu a chynyddu cyfranogiad gan grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol. Disgwylir y bydd mwy na 200 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan yn weithredol.

Mae'r prosiect yn rhan allweddol o'r gwaith ehangach o adfywio canol y dref, gan gyfrannu at greu ardal ddiwylliannol newydd sy'n cysylltu Marchnad Devizes, safle'r bragdy hanesyddol a Chamlas Kennet ac Avon. Disgwylir iddo gynyddu niferoedd ymwelwyr, balchder lleol a gweithgarwch economaidd ac ar yr un pryd codi statws Devizes o fewn cynnig twristiaeth Treftadaeth y Byd ehangach Stonehenge ac Avebury.

Gwybodaeth rheoli cymhorthdaliadau mewn perthynas â grant i Parochial Church Council of the Ecclesiastical Parish of St Mary Le Strand with St Clement Danes

Prosiect: The Jewel in the Strand

Dyddiad y grant: 2 Rhagfyr 2025

Cyfeirnod: NL-22-00008

Granti: The Parochial Church Council of the Ecclesiastical Parish of St Mary Le Strand with St Clement Danes

Dyddiad dod i ben y grant: 2 Rhagfyr 2030

Categori buddiolwr: Mentrau bach a chanolig eu maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £5,399,770

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: ?Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiect treftadaeth yn y DU. Rhaglen ariannu ydyw sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth ar gyfer y presennol a'r dyfodol, cefnogi adferiad byd natur a chynladwyedd amgylcheddol, cefnogi gwell gynhwysiad,

amrywiaeth, mynediad, a chyfranogiad mewn treftadaeth, a chryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnherth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae hyn yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal: Bydd y cymhorthdal hwn yn helpu i gyflwyno'r gwaith adfer a thrawsnewid sylweddol ar St Mary-le-Strand i ddod yn adeilad tirnod ffyniannus o fewn yr Ardal Dreftadaeth.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Mae'r gwaith allweddol yn trawsnewid y crypt yn ofod cymunedol tanddaearol newydd, gan ddarparu mynediad cyffredinol, ac aildrefnu corff yr eglwys i gefnogi ystod o weithgareddau a digwyddiadau. Mae'r cynllun ramp yn cyflawni hygyrchedd llawn i'r ddwy lefel, a bydd estyniad o ffiniau presennol y fynwent i'r parth cyhoeddus, a thirlunio newydd (Sanctuary Garden). Bydd mynedfa gyhoeddus newydd yn darparu croeso a chyfeiriadu i ymwelwyr. Mae manau gweithredol a chyfleusterau cyhoeddus yn cynnwys toiled Changing Places.

Bydd gwaith adfer yn sefydlogi'r adeilad a'r gwaith maen allanol, a bydd y gwaith maen yn cael ei lanhau at ddibenion cadwraeth. Bydd gwaith arall yn cael ei wneud i'r to a'r ffenestri. Mae'r gwaith mewnol yn cynnwys atgyweirio ac aildrefnu corff yr eglwys a'r gangell i ddatgelu ysbryd dyluniad Gibbs, wedi'i gydbwysu ag anghenion cyfoes yr eglwys. Mae hyn yn cynnwys mynediad di-risiau, lifft newydd, lloriau newydd, ac uwchraddio gwresogi, goleuadau ac offer clyweled. Mae addurno mewnol yn ymdrin â'r difrod i arwynebau wedi'u peintio a'u plastro o ganlyniad i dd?r hanesyddol sydd wedi treiddio ac adfer gwaith coed. Bydd cynllun paent newydd yn cael ei lywio gan ddadansoddiad paent o'r rhannu mewnol o 1724 a Chapel Gibbs yn Neuadd Wimpole.

Bydd cynllun gweithgareddau tair blynedd yn datblygu cynulleidfaoedd craidd a tharged St Mary-le-Strand i 82,420 y flwyddyn. Bydd tua 30,000 o gyfranogwyr yn cynnwys:

- myfyrwyr a phobl ifanc mewn addysg amser llawn
- pobl ifanc ym Mwrdeistref San Steffan, Llundain
- gweithwyr lleol
- gwirfoddolwyr
- Wreniaid a menywod yn y lluoedd arfog
- pobl o ffydd amrywiol
- pobl sy'n nodi bod ganddynt afiechyd meddwl neu gorfforol

Mae cynulleidfaoedd craidd yn cynnwys twristiaid, ymwelwyr diwylliannol, academyddion a chynulleidfaoedd cyngerdd. Bydd cyfeiriadu a dehongli mewn manau allweddol yn galluogi pob ymwelydd i ymgysylltu â'r dreftadaeth.

Bydd cynnig digidol a dull naratif aml-haenog yn archwilio'r dreftadaeth trwy themâu Harddwch, Naws Agored a Goroesi, ac fel lle i bobl yng nghanol bywyd Llundain a'r Strand ers dros 300 mlynedd. Mae'r cynllun cynhwysfawr wedi'i lywio gan ymgynghoriad ac mae ganddo 10 partner cyflwyno ar draws sefydliadau diwylliannol a chymunedol gan gynnwys Kings College, The Courtauld a Somerset House, prosiect ieuenctid Westminster Lions a'r Gwasanaeth Addysg Oedolion. Bydd y prosiect yn cael ei fonitro a'i werthuso'n llawn gan alluogi adolygu a mireinio.

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â grant i Chatsworth House Trust

Prosiect: Celebrating the Cascade at Chatsworth

Dyddiad y grant: 7 Hydref 2025

Cyfeirnod: NL-21-00236

Granti: Chatsworth House Trust

Dyddiad dod i ben y grant: 28 Chwefror 2029

Categori buddiolwr: Mawr

Swm y cymhorthdal: £4,995,173

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Mae'n rhaglen ariannu sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae'n cefnogi adferiad byd natur, cynaladwyedd amgylcheddol a gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth, ac yn cryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnerth yn ariannol. ?Mae hyn oll yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.??

Diben y cymhorthdal:?Bydd y cymhorthdal hwn yn cael ei ddefnyddio tuag at adfer y Cascade o'r 18fed ganrif yn Chatsworth House, Swydd Derby. Chatsworth yw cartref mawreddog Dugiaid Dyfnaint, wedi'i leoli rhwng Bakewell a Chesterfield yng nghwm Afon Derwent ym Mharc Cenedlaethol y Peak District.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.??

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Mae risg ffisegol i adeiledd y Cascade, gan i dd?r ollwng islaw ac y tu ôl i'r adeiledd cerrig, yn enwedig yng nghyswllt agosrwydd Twannel Paxton, ynghyd ag erydiad cyson parhaus islaw'r palmant cerrig a'r tu ôl i'r grisiau cerrig. Heb weithredu i ymdrin â'r materion hyn mae risg sylweddol i'r ffabrig hanesyddol.

Mae'r ardal islaw ac o amgylch y Cascade hefyd dan fygythiad oherwydd y twannel sy'n cwmpo o dan y Cascade, gyda d?r yn llifo trwy'r adeiledd sydd wedi erydu cymalau mortar, gan greu gwagleoedd a llyncdyllau yn y broses. Er diogelwch y cyhoedd ac i atal difrod pellach i'r adeiledd, mae'r Cascade wedi cael ei ddiffodd a bu cyfyngiad ar fynediad cyhoeddus ers 2023.

Disgrifiwyd yr adeilad rhestredig Gradd I unigryw hwn, sydd mewn perygl difrifol oherwydd gollyngiadau d?r a gwaith cerrig dirywiol, gan Pevsner ar un adeg fel "pleser i'r glust yn ogystal â'r llygad" a bydd yn cael ei adfer ac yn gwbl weithredol unwaith eto. Bydd Cascade House a'r cerfluniau cysylltiedig yn cael eu hadfer a bydd y problemau adeileddol

yn y twnnel islaw'r Cascade yn cael eu datrys.

Bydd y cynlluniau dehongli a gweithgareddau i ehangu cynulleidfaoedd Chatsworth, ochr yn ochr â thocynnau â chymhorthdal i grwpiau dan anfantais, yn ehangu mynediad a chynhwysiad er mwyn cynnwys pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a'r rhai ag anableddau gweladwy a chuddiedig. Bydd rhaglenni'n integreiddio storïau o fyd peirianeg, i werth d'r yn yr amgylchedd, i hanes dylunio tirweddau. Bydd mynd â dehongli y tu hwnt i'r rhwystr tâl i mewn i'r parcdir, y coedwigoedd ac ar-lein sydd ar gael am ddim yn creu profiad ystyrion i gynulleidfaoedd newydd na fyddent fel arfer yn gweld Chatsworth fel lle ar eu cyfer nhw.

Mae ysgolion yn Ymddiriedolaeth Ddysgu Minerva, sy'n cynnwys pedair ysgol yn Chesterfield a Swydd Derby, wedi rhoi cefnogaeth wrth greu'r cynnig dysgu ac ymgysylltu ffurfiol ar y cyd. Bydd hwn yn canolbwyntio ar yr ardd a'r dirwedd gan ddefnyddio pynciau STEAM a datblygu lles yn seiliedig ar themâu d'r, peirianeg, treftadaeth adeiledig a'r amgylchedd.

Mae Derbyshire Mind, sy'n darparu eiriolaeth a chymorth iechyd meddwl, wedi rhoi mewnbwn gwerthfawr i helpu nodi ardaloedd llonydd yn y gerddi ac wedi cynghori ar y digwyddiadau a'r sesiynau lles a gynllunnir. Mae gweithgareddau peilot wedi dangos bod mynediad at fyd natur wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a lles cyfranogwyr.

Bydd rhaglen wedi'i thargedu o ymgysylltu cymunedol, a gynhyrchir ar y cyd gan y gymuned leol, yn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd amrywiol gan gynnwys pobl ifanc, a fydd yn rhan o'r rhaglen hanes llafar sydd i'w defnyddio yn y dehongliad ac a gaiff ei chadw fel archif ddigidol.

Gwybodaeth rheoli cymhorthdal mewn perthynas â grant i West Midlands Historic Buildings Trust

Prosiect: Heritage Enterprise: A Homely Future for St Michael's Place, Warwick

Dyddiad y grant: 2 Hydref 2025

Cyfeirnod: NL-22-00125

Granti: West Midlands Historic Buildings Trust

Dyddiad dod i ben y grant: 31 Rhagfyr 2028

Categori buddiolwr: Mentrau bach a chanolig eu maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £2,964,199

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Mae ein grantiau Menter Treftadaeth yn helpu prosiectau i gyflawni twf economaidd drwy fuddsoddi mewn treftadaeth. Maent yn cefnogi sefydliadau masnachol sy'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol i'w helpu i achub adeiladau a safleoedd hanesyddol sydd wedi'u hesgeuluso a'u dychwelyd i ddefnydd cynhyrchiol hyfyw.

Dylunnir y rhaglen i bontio'r bwch ariannu sy'n atal ased hanesyddol y mae angen ei atgyweirio rhag cael ei ddychwelyd i ddefnydd buddiol a masnachol. Mae'r achos dros roi arian grant yn seiliedig ar y diffyg cadwraeth, lle mae gwerth presennol ased treftadaeth ynghyd â'r gost o'i ddychwelyd i ddefnydd yn fwy na gwerth yr ased ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau.

Mae'r rhaglen yn gwarchod ac yn gwerthfawrogi treftadaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol, gan gefnogi gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth, ac yn gryfhau treftadaeth i fedru addasu a bod yn gydnherth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae hyn oll yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal: Mae safle St Michael's Place o arwyddocâd treftadaeth rhanbarthol a chenedlaethol ac mae Master's House mewn perygl mawr o gwmpo oni bai y caiff ei atgyweirio ar frys. Bydd y cymhorthdal yn cael ei ddefnyddio tuag at warchod, adnewyddu ac aildefnyddio Master's House a St Michael's Chapel, sydd wedi'u lleoli ar safle St Michael's Place yn Saltisford, Warwick, yn gynaliadwy fel dau gartref fforddiadwy i'w rhentu. Ar ôl eu hadfer, bydd yr adeiladau'n cael eu lesio i ddarparu'r tai cymdeithasol i'w rheoli dros y tymor hwy.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.??

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Bydd y gwaith i Master's House yn atgyweiriad adeileddol cynhwysfawr o'r adeilad at safonau cadwraeth uchel gan gynnwys atgyweirio'r pren adeileddol yn llawn, gosod to newydd, ffenestri newydd, inswleiddio, gwaith mecanyddol a thrydanol (M&E) a draenio. Bydd angen datgymalu rhan fawr o'r ffrâm bren i'w hasesu a'i hatgyweirio cyn ei hailosod. Mae gwaith gosod llawn ar gyfer t? teuluol dwy ystafell wely wedi'i gynnwys. Bydd y capel yn cael ei atgyweirio a'i adnewyddu'n llwyr a'i drawsnewid yn annedd un ystafell wely.

Bydd tirlunio meddal cyffredinol yn cael ei wneud gan gynnwys borderi dolydd blodau gwyllt a phlannu coed a llwyni brodorol, gan ddarparu cynefin bywyd gwyllt gwell. Bydd pwynt gwefru trydan yn cael ei osod, yn ogystal â lle i storio beiciau a bydd nifer gyfyngedig o leoedd parcio i hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a cherdded.

Bydd dehongliad yn cael ei integreiddio i'r tirlunio. Un o'r prif nodweddion fydd gardd feddyginiaethol yn wynebu'r briffordd a phaneli dehongli ar ffensys ar hyd y palmant, yn esbonio hanes y safle a'r defnydd canoloesol o blanhigion meddyginiaethol. Mae mynediad cyhoeddus i'r adeiladau'n gyfyngedig felly mae elfen ddigidol gref – mae tref gyfagos, Leamington Spa, wedi sefydlu enw da fel canolfan datblygu gemau digidol ac mae'r prosiect yn anelu at fanteisio ar y sylfaen sgiliau leol hon i ddatblygu dehongliad digidol arloesol.

Gwybodaeth Rheoli Cymorthdaliadau mewn perthynas â grant i Bailiffgate Museum and Gallery

Prosiect: Heritage, Creativity & Community in the Heart of Alnwick

Dyddiad y grant: 22 Medi 2025

Cyfeirnod: NL-23-00134

Granti: Bailiffgate Museum and Gallery

Dyddiad dod i ben y grant: 31 Rhagfyr 2030

Categori buddiolwr: Mentrau bach a chanolig eu maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £4,504,371

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Mae'n rhaglen ariannu sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae'n cefnogi adferiad byd natur, cynladwyedd amgylcheddol a gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth, ac yn cryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnherth yn ariannol. ?Mae hyn oll yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.??

Diben y cymhorthdal:?Bydd y cymhorthdal yn helpu achub Northumberland Hall, ased treftadaeth arwyddocaol yn Alnwick. Fe gaiff ei ddefnyddio i adfer ac adnewyddu adeilad rhestredig Gradd I segur dirywiol, sy'n ganolog i hanes cymdeithasol a masnachu Alnwick, a'i ddod yn ôl i ddefnydd cynhyrchiol. Bydd Northumberland Hall yn dod yn atyniad diwylliannol bywiog a gweladwy yng nghanol lle marchnad hanesyddol Alnwick, gan sicrhau dyfodol cynaliadwy hirdymor yr adeilad.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.??

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Bydd newidiadau i'r tu mewn yn gwella ac yn gwarchod cyflwr cyffredinol yr adeilad, gan greu lle hygyrch a chroesawgar i drigolion lleol ac ymwelwyr. Bydd gwaith allanol yn gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig yng nghanol y dref yn sylweddol, gan roi hwb i fuddsoddiadau ehangach yn y seilwaith parth cyhoeddus, dynodi llwybrau a digwyddiadau.

Amlygodd arolygon adeiladu a gynhaliwyd yn ystod y cam datblygu fod yr adeilad mewn cyflwr gwaeth nag a dybiwyd yn flaenorol a'i fod yn dirywio'n gyflym. Mae difrod d?r sylweddol yn y brif neuadd oherwydd cyflwr gwaeth y to a'r cafnau; mae rhannau o waith plastr addurniadol y nenfwd wedi mynd yn soeglyd ac mae risg y cânt eu colli'n llwyr; ac mae twf ffwngaidd yn y waliau oherwydd gorwresogi, awyru gwaeth ac ansawdd isel gwaith adferol blaenorol.

Bydd y gair llafar, hanesion llafar, gweithiau celf mynegiannol, cerddoriaeth a ffilmiau'n creu gofod o storïau ac atgofion amrywiol. Bydd gwrthrychau o'r casgliad yn dod yn byrth i ddatgloi'r storïau y tu ôl i'w bodolaeth, gan alluogi ymwelwyr i ddod yn agosach nag erioed o'r blaen at bersonoliaethau'r ardal o'r gorffennol a'r presennol.

Bydd ailddefnyddio ac ailbwrpasu Northumberland Hall, sy'n rhestredig Gradd I, yn darparu manteision amgylcheddol ac yn dangos sut y gellir dod ag adeiladau hanesyddol yn ôl i ddefnydd mewn ffordd sy'n lliniaru'r effaith amgylcheddol.

Gwybodaeth Rheoli cymhorthdal mewn perthynas â grant i Birmingham Botanical & Horticultural Society Limited

Prosiect: Growing our Green Heritage: Restoring Birmingham's Botanical Gardens for Life

Dyddiad y grant: 29 Awst 2025

Cyfeirnod: NL-21-00177

Granti: Birmingham Botanical & Horticultural Society Limited

Dyddiad dod i ben y grant: 30 Awst 2030

Categori buddiolwr: Mentrau bach a chanolig eu maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £9,074,999

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Mae'n rhaglen ariannu sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae'n cefnogi adferiad byd natur, cynaladwyedd amgylcheddol a gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad a chyfranogiad mewn treftadaeth, ac yn cryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnherth yn ariannol. ?Mae hyn oll yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.??

Diben y cymhorthdal: Bydd y cymhorthdal hwn yn cefnogi'r gwaith o adfer ystâd tai gwydr hanesyddol Gradd II* Gerddi Botaneg Birmingham (BBG) ac yn gwarchod treftadaeth, casgliad byw a gerddi Birmingham ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd yn gwella profiad ymwelwyr, dysgu ac ymgysylltu cymunedol, gan adfer BBG i fod yn ardd fotaneg flaenllaw yn y DU a diogelu man gwyrdd rhagorol dros Birmingham a Chanolbarth Lloegr.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.??

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Mae'r prosiect yn cynnwys:

- rhesymoli estyniadau modern sydd wedi dyddio i ddatgelu pedwar t? gwydr a fydd yn cael eu hadfer i'w dyluniad gwreiddiol
- uwchraddio gwasanaethau i wella perfformiad a gweithrediad amgylcheddol yn sylweddol
- creu cwrt canolog newydd a thirlunio i wella ymddangosiad gweledol y safle a galluogi cynnal digwyddiadau
- uwchraddio tai gwydr planhigfeydd gyda chyfleusterau modern i gynorthwyo tyfu rhywogaethau planhigion
- adnewyddu'r 'Terrace Suite' hanesyddol gyda gwelliannau ysgafn i ganiatáu parhad cynadleddau a digwyddiadau
- adnewyddu a moderneiddio adeilad presennol y caffi a lapio'r tu allan gyda ffasâd newydd i greu canolfan ymwelwyr, caffi a siop 536m², gan ddarparu man croesawu clir i'r gerddi
- uwchraddio'r ganolfan ddysgu gyda mannau newydd, ystafell ddosbarth awyr agored (â lle i 60 o fyfyrwyr) a gardd ddysgu hygyrch

- moderneiddio'r 'Gatekeeper's Lodge' a'r siop bresennol i gynnwys yr archifau, y llyfrgell ymchwil a swyddfeydd y staff

Mae gwelliannau i'r parth cyhoeddus yn cynnwys mynedfa newydd o'r ffordd ac uwchraddio'r maes parcio i wneud y safle'n fwy hygyrch a chynhwysol. Bydd cynllun dehongli a chyfeiriadau newydd ar draws y safle'n cael eu gweithredu drwy ganolbwyntio ar dair thema allweddol sef gwyddoniaeth, pobl a threftadaeth.

Mae gwella effeithlonrwydd amgylcheddol yn hanfodol ac yn cynnwys ailgylchu, systemau gwresogi trydan newydd ac awyru wedi'i uwchraddio i gefnogi datgarboneiddio'r safle ac ymrwymiad y sefydliad tuag at garbon sero net. Bydd tri deg saith o goed newydd yn cael eu plannu i wella'r gorchudd coed ac ansawdd aer yn ogystal â phlannu olyniaeth i wella bioamrywiaeth. Mae BBG wedi darparu cyfleuster compostio newydd.

Mae'r cynllun gweithgareddau'n adlewyrchu'r gwaith ymgynghori eang a'r prosiectau peilot gyda grwpiau cymunedol, darparwyr addysg, rhanddeiliaid allweddol, arbenigwyr garddio, ymgynghorwyr arbenigol a thîm dylunio. Nod y prosiect yw ennyn diddordeb dros 17,000 o bobl dros bedair blynedd ar draws amrywiaeth o gynulleidfaoedd sy'n adlewyrchu dinas amrywiol Birmingham yn well. Yn benodol, y cynulleidfaoedd targed yw:

- pobl ifanc 12–25 oed
- oedolion a theuluoedd ar incwm isel
- cynulleidfaoedd mwyafrif byd-eang
- pobl anabl a phobl ag afiechyd meddwl
- pobl heb gymhwyster/di-waith

Ar ben hynny, bydd 144 o wirfoddolwyr newydd yn cael eu cyflogi a'u hyfforddi i ddiogelu'r dreftadaeth naturiol, gan gynnwys cyfleoedd i bobl ag anableddau/afiechyd meddwl ddysgu sgiliau catalogio, digideiddio ac ymchwilio i'r archif a'r casgliadau.

Mae partneriaethau wedi'u sefydlu gyda phum prifysgol, gan gynnwys dwy yn Birmingham, a sefydliadau lleol i gynorthwyo wrth gyflwyno'r cynllun gweithgareddau ac adeiladu etifeddiaeth i sicrhau bod ymgysylltu'n parhau ar ôl cwblhau'r prosiect. Mae ystod eang o weithgareddau wedi'u cynnig, gan gynnwys gweithdai garddio, digwyddiadau a theithiau cerdded a sgwrsio. Bydd tocynnau am ddim hefyd yn cael eu rhoi i grwpiau a dargedir i annog ymweliadau dro ar ôl tro.

Gwybodaeth rheoli cymhorthdal mewn perthynas â grant i St Conan's Heritage Trust SCIO

Prosiect: Mentrau newydd i warchod a rhannu treftadaeth St Conan's Kirk mewn ffordd gynhwysol, gan ehangu ein cynulleidfaoedd a chefnogi ein cymuned.

Dyddiad y grant: 30 Mehe?n 2025

Dyddiad dod i ben y grant: 30 Mehe?n 2027

Cyfeirnod: NL-22-00048

Granti: St Conan's Heritage Trust SCIO

Categori buddiolwr: Bach?

Swm y cymhorthdal: £1,039,773

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: ?Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiect treftadaeth yn y DU. Rhaglen ariannu ydyw sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth ar gyfer y presennol a'r dyfodol, cefnogi adferiad byd natur a chynladwyedd amgylcheddol, cefnogi gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad, a chyfranogiad mewn treftadaeth, a chryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnerth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae hyn yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal: Nod y prosiect hwn yw achub treftadaeth St Conan's Kirk hardd, sy'n rhestredig Gradd A, trwy gyflwyno rhaglen o waith atgyweirio ac uwchraddio angenrheidiol, gan sicrhau ei bod yn parhau i fod yn ganolbwynt i weithgarwch cymunedol Lochawe a gogledd Argyll.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.??

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb prosiect: Bydd gwaith cadwraeth brys ac angenrheidiol yn cael ei wneud i ddiogelu ffabrig hanesyddol yr adeilad, gan gynnwys atgyweiriadau i'r toeau ac i waith cerrig lefel uchel T?r Daniel a'r T?r Wythonglog. Bydd manau nas defnyddir yn cael eu hadfer i ddefnydd, gan gynnwys y crypt a fydd yn dod yn ofod arddangos a pherfformio bach, ac islawr Capel Bruce a fydd yn darparu ystafell addysg amlbwrpas. Bydd gwelliannau mynediad yn cael eu gwneud a bydd cyfleusterau ymwelwyr yn cael eu cyflwyno, drwy ddarparu toiledau newydd, gan gynnwys toiled hygyrch yn y T?r Wythonglog. Bydd y maes parcio hefyd yn cael ei ehangu a'i wella ar gyfer ymwelwyr â'r safle.

Gwybodaeth rheoli cymhorthdal mewn perthynas â grant i Royal High School Preservation Trust

Prosiect: Awakening Edinburgh's Architectural Masterpiece – A New Cultural and Environmental Destination

Dyddiad y grant: 24 Mehe?n 2025

Cyfeirnod: HZ-24-00022

Granti: Royal High School Preservation Trust

Dyddiad dod i ben y grant: 1 Mawrth 2030

Categori buddiolwr: Mentrau Bach a Chanolig eu Maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £4,973,579

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a

Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiect treftadaeth yn y DU. Rhaglen ariannu ydyw sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth ar gyfer y presennol a'r dyfodol, cefnogi adferiad byd natur a chynladwyedd amgylcheddol, cefnogi gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad, a chyfranogiad mewn treftadaeth, a chryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnerth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae hyn yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal: Bydd y prosiect o'r diwedd yn atal dirywiad un o adeiladau neo-glasurol pwysicaf Yr Alban. Gyda dull a arweinir gan gadwraeth, bydd yn adfer nodweddion pensaernïol pwysicaf yr adeilad ac yn gweithredu cynlluniau cadwraeth a chynnal a chadw. At hynny, bydd yr adeilad a'r tiroedd cyfagos yn cael eu haddasu ar gyfer defnydd cyfoes, diwylliannol, gan greu dyfodol hyfyw a chynaliadwy i'r safle, sydd wedi bod yn anodd ei ddefnyddio ers degawdau.

Bydd y prosiect yn galluogi mynediad cyhoeddus parhaus i'r adeilad am y tro cyntaf ers 1968, cyn hynny dim ond disgyblion a staff allai ei gyrchu. Bydd mynediad am ddim i'r adeilad a'r tiroedd a bydd cymunedau lleol yn cael eu hannog i ddefnyddio'r adeilad at eu dibenion eu hunain. Mae gweithgareddau arfaethedig yn canolbwyntio ar ddatblygu perchnogaeth ar y safle a gwella sgiliau, cyflogaeth a lles.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.??

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y grantï ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.???

Crynodeb o'r prosiect: Bydd y prosiect, sydd â cham cyflwyno pedair blynedd a hanner, yn digwydd yn yr hen Royal High School ar Calton Hill, Caeredin. Bydd yn adfer yr adeilad rhestredig categori A ac yn sicrhau ei ddyfodol hirdymor drwy greu defnydd newydd fel canolfan ddiwylliannol newydd i drigolion lleol ac ymwelwyr.

O ran gwaith adeiladu cyfalaf, bydd y neuadd ymgynnull ganolog wreiddiol a dwy ystafell ddosbarth gyfagos yn cael eu hadfer yn sensitif i'w dyluniad Hamilton gwreiddiol ac yn cael eu haddasu i'w defnyddio fel mannau perfformio cyhoeddus a all weithredu ar yr un pryd, gyda chyfanswm capasiti cyfunol o 500 o bobl. Er mwyn galluogi cylchrediad o amgylch yr adeilad, bydd lefel y llawr gwaelod isaf presennol yn cael ei hymestyn trwy gloddio i greu lle ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus a chyfleustodau. Bydd mynediad ffisegol yn cael ei ategu trwy osod pedwar lifft newydd. Bydd yr adain orllewinol yn cael ei datblygu fel gofod lletygarwch a digwyddiadau diwylliannol sy'n cynhyrchu refeniw ar lefel y llawr gwaelod, ac islaw hynny bydd caffï gyda mynediad allanol i gwr. Bydd yr adain ddwyreiniol yn darparu ystafelloedd ymarfer a recordio i gerddorion, a chanolfan weithrediadau. Bydd y pafiliwn gorllewinol yn darparu canolfan croesawu ymwelwyr a dehongli, a bydd y pafiliwn dwyreiniol yn darparu stiwdio ddysgu ac ymgysylltu.

Mae'r prosiect cyfalaf ar RIBA Cam 3 ar hyn o bryd, mae caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau, mae'r rhan fwyaf o'r ariannu wedi'i sicrhau ac mae dyddiad dechrau'r prif gontract wedi'i amserlennu ar gyfer haf 2025. Bydd y contractwr yn ymgymryd â gwaith adeiladu dros gyfnod o 18 mis i'r waliau, y to, y ffenestri, y drysau, y gorffeniadau, y gosodiadau a'r ffitiadau, a'r gwasanaethau, ac yn gosod yr adeilad yn unol â manylebau'r dyluniad.

O ran y gwaith tirlunio ehangach, bydd y tiroedd heb eu defnyddio ar y safle 11,750m² hwn yn cael eu gwneud yn wastad fel bod yr adeilad yn hygyrch o'r tu allan. Byddant hefyd yn cael eu trawsnewid yn erddi cyhoeddus sydd ar gael

yn rhydd yn ôl dyluniadau gan y pensaer tirlunio o Loegr, Tom Stuart-Smith, a'u stocio â rhywogaethau planhigion a choed brodorol a ddewiswyd yn ofalus. Bydd y gerddi'n lleoliad ar gyfer digwyddiadau diwylliannol.

Bydd y dreftadaeth yn cael ei dehongli drwy arddangosfeydd ffisegol a digidol ar draws yr adeilad a'r dirwedd ehangach ond yn bennaf yn y cyfleuster derbyn/croeso arfaethedig a leolir o fewn y pafiliwn gorllewinol. Mae'r themâu'n cynnwys pensaernïaeth, tirwedd a lleoliad, cerddoriaeth Yr Alban ac arloeswyr Yr Alban. Mae'r cyfryngau arfaethedig yn cynnwys blychau golau a waliau fideo ar gyfer y cyntedd newydd, arddangosfeydd bwrdd caffi sy'n seiliedig ar storïau a nodweddion rhyngweithiol chwaraus yn yr ardd. Nod y prosiect yw ennyn diddordeb o leiaf 16,500 o bobl, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol, dros bedair blynedd y cynllun gweithgareddau, gan gynnwys dros ddwy flynedd a hanner o weithredu. Y cynulleidfaoedd targed allweddol yw trigolion, ymwelwyr a grwpiau arbenigol, gan gynnwys cymunedau difreintiedig lleol yn Dumbiedykes ac Abbeyhill.

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â grant i The Soil Association Land Trust

Prosiect: Restoring and Celebrating the Heritage of Woodoaks Farm

Dyddiad y grant: 18 Mehefin 2025

Cyfeirnod: NL-22-00149

Granti: The Soil Association Land Trust

Dyddiad dod i ben y grant: 31 Mawrth 2030

Categori buddiolwr: Mentrau Bach a Chanolig eu Maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £1,982,128

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) bŵer statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiect treftadaeth yn y DU. Rhaglen ariannu ydyw sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth ar gyfer y presennol a'r dyfodol, cefnogi adferiad byd natur a chynladwyedd amgylcheddol, cefnogi gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad, a chyfranogiad mewn treftadaeth, a chryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnerth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae hyn yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal: Bydd y prosiect yn creu defnydd cynaliadwy newydd ar gyfer y 'Black Barn' rhestredig Gradd II, yn rhannu stori 1,000 o flynyddoedd o dreftadaeth ffermio ac yn gwella'r cysylltiad â byd natur trwy wirfoddoli, addysg a digwyddiadau.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.??

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Dros bedair blynedd, bydd y prosiect hwn yn datblygu adeiladau fferm presennol yn hyb addysg a chymunedol newydd, a bydd rhaglen weithgareddau eang ei chwmpas yn cyflwyno gwelliannau i'r dirwedd a'r cynefinoedd. Mae'r gweithgareddau ac allbynnau cynlluniedig yn cynnwys:

- Adfer Cynefinoedd Blaenoriaeth Genedlaethol, gan gynnwys coetiroedd, gwrychoedd (1km i'w plannu), prysgwydd, glaswelltiroedd a phyllau. Bydd cynefinoedd yn cael eu cysylltu ar draws y fferm i ffurfio coridorau bywyd gwyllt newydd, a bydd rhaglen monitro bywyd gwyllt a chynefinoedd yn nodi rhywogaethau coll neu dan fygythiad er mwyn llywio rheoli tir yn y dyfodol. Bydd ardal dyfu gymunedol newydd a pherllan gymunedol yn cynyddu dealltwriaeth o arferion ffermio traddodiadol a chysylltiad â byd natur.
- Bydd y 'Black Barn' yn cael ei diogelu rhag y tywydd, a bydd ei hadeiladau ategol yn cael eu hailddefnyddio i ddarparu cyfleusterau i ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn. Mae'r cynlluniau'n cynnwys gofod dysgu newydd sbon ar gyfer 60 o bobl yn lle'r sied droliau goncrit adfeiliedig, i gynnwys ystafell gyfarfod, cegin sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn a thoiledau hygyrch.
- Bydd y rhaglen addysg strwythuredig newydd yn targedu'r blynyddoedd cynnar i gyfnod allweddol 5 mewn treftadaeth, ffermio a byd natur, a bydd rhaglen allgymorth newydd yn datblygu blychau benthyg ac adnoddau digidol i wneud treftadaeth yn fwy hygyrch.?
- Mae'r cynllun gweithgareddau wedi'i ehangu i wella dealltwriaeth o dreftadaeth Woodoaks. Gyda chefnogaeth y partneriaid, Three Rivers Museum a Chiltern Open Air Museum gyfagos, bydd cyfranogwyr yn archwilio cofnodion a gwrthrychau fferm ac yn casglu hanesion llafar i'w defnyddio fel rhan o'r cynllun dehongli newydd ar gyfer y safle cyfan. Bydd dau lwybr cerdded hygyrch newydd yn cael eu creu, gyda marcwyr ffordd, byrddau gwybodaeth a physt sain/rhwbio wedi'u gwasgaru ar hyd y llwybr.

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â grant i Paxton Trust

Prosiect: Sustainable Future

Dyddiad y grant: 27 Mawrth 2025

Dyddiad dod i ben y grant: 31 Hydref 2025

Cyfeirnod: HA-24-00618

Granti: Paxton Trust

Categori buddiolwr: Bach

Swm y cymhorthdal: £250,000

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiect treftadaeth yn y DU. Rhaglen ariannu ydyw sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth ar gyfer y presennol a'r dyfodol, cefnogi adferiad byd natur a chynnaladwyedd amgylcheddol, cefnogi gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad, a chyfranogiad mewn treftadaeth, a chryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnerth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae hyn yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal: Bydd yr ariannu'n cefnogi cynladwyedd hirdymor Paxton Trust a'u gwaith parhaus i gynnal a chadw Paxton House, sy'n rhestredig Gradd A ac wedi'i leoli ar Afon Tweed yng Ngororau'r Alban. Bydd y prosiect yn cynnig budd hirdymor i'r cyhoedd drwy sicrhau cynladwyedd ariannol Paxton Trust a mynediad hirdymor i Paxton House a'r ystâd gyfagos, a'r gwaith o'i gynnal a'i gadw. Bydd ychwanegu at eu cynnig llety yn ehangu eu cynulleidfa, gan gynyddu ymwelwyr â'r ardal. Bydd ymgysylltu â'r dirwedd naturiol yn cynyddu, gan ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer rhaglennu.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Bydd pentref glampio saith pod yn cael ei osod o fewn yr ystâd, ynghyd â phwll natur a chynefin blodau gwyllt. Nod y prosiect yw cynyddu ymgysylltiad â threftadaeth naturiol yr ystâd, gyda chyfleoedd gwirfoddoli garddio a thirlunio, a datblygu llwybr newydd a theithiau misol yn rhyddor yr haf. Bydd y prosiect yn cynyddu capasiti ar gyfer arosiadau dros nos o fewn tiroedd Paxton, ffynhonnell incwm hanfodol i'r Ymddiriedolaeth. Mae Paxton Trust hefyd yn gweithio gyda 45 o wirfoddolwyr gweithredol sy'n cefnogi ymchwil hanesyddol, datblygu ymwelwyr a rheoli'r tiroedd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn lletya grwpiau ysgol ar gyfer gwersi sy'n canolbwyntio ar gelf, hanes a gwleidyddiaeth.

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â grant i Creative Land Trust

Prosiect: Creating Futures at Alice Billing House

Dyddiad y grant: 17 Mawrth 2025

Cyfeirnod: NL-22-00157

Granti: Creative Land Trust

Dyddiad dod i ben y grant: 31 Mawrth 2029

Categori buddiolwr: Bach

Swm y cymhorthdal: £2,885,867

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiect treftadaeth yn y DU. Rhaglen ariannu ydyw sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth ar gyfer y presennol a'r dyfodol, cefnogi adferiad byd natur a chynladwyedd amgylcheddol, cefnogi gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad, a chyfranogiad mewn treftadaeth, a chryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnerth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae hyn yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal: Bydd adeilad cwrt adfeiliedig o'r 1960au yn cael ei ddymchwel a'i ddisodli gan bafiliwn cymunedol newydd lle bydd y rhaglen weithgareddau ac addysg sy'n seiliedig ar sgiliau yn cael ei chynnal. Bydd yn caniatáu mynediad gwastad i Flociau'r De a'r Gogledd a bydd yn cael ei fodelu'n hyblyg i ddarparu mannau profi sy'n ymwneud â bwyd caffi, manwerthu ac arddangosfeydd. Daw'r prosiect yn sgil cwblhau cam un yn llwyddiannus, a wnaeth adfer to Bloc y Gogledd a rhannau mewnol Bloc y De, gyda'r olaf yn cael ei lansio'n llwyddiannus fel gofod stiwdio llawn tenantiaid yn rhan gyntaf 2024.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Mae'r prosiect yn cynrychioli cam dau o'r gwaith adfer hwn sydd wedi'i arwain gan gadwraeth ar rannau allanol a mewnol Bloc y Gogledd rhestredig Gradd II. Bydd yn creu 12 stiwdio ar gyfer hyd at 42 o bobl greadigol, ochr yn ochr ag adfer to a rhannau allanol Bloc y De, mynedfa newydd i'r cwrt a gwella gardd yr iard. I gyd-fynd â'r gwaith cyfalaf fydd cynllun gweithgareddau sy'n disgrifio gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ddehongli hanesyddol a arweinir gan gelf a rhaglen weithgareddau ac allgymorth gynhwysol a arweinir gan dreftadaeth, sy'n defnyddio themâu fel Brigâd Dân wreiddiol West Ham a rôl Alice Billing mewn cymdeithas. Bydd Grow Studios, sydd eisoes yn rheoli Bloc y De, yn cyflwyno rhaglen celfyddydau treftadaeth ac ymgysylltu cymunedol sy'n cyfuno rhaglen o weithdai, comisiynau, preswylfeydd, labordai creadigol, teithiau, galwadau agored a stiwdios agored, ym Mloc y Gogledd ac yn yr ardal leol.

Gwybodaeth rheoli cymorthdaliadau mewn perthynas â grant i Dundee Industrial Heritage SCIO

Prosiect: Discovery Point Transformed – a new centre for Antarctic heritage, environment, and learning

Dyddiad y grant: 11 Mawrth 2025

Cyfeirnod: OL-20-05900

Granti: Dundee Industrial Heritage SCIO

Dyddiad dod i ben y grant: 31 Mawrth 2029

Categori buddiolwr: Bach

Swm y cymhorthdal: £3,551,932

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiect treftadaeth yn y DU. Rhaglen ariannu ydyw sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth ar gyfer y presennol a'r dyfodol, cefnogi adferiad byd natur a chynnaladwyedd amgylcheddol, cefnogi gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad, a chyfranogiad mewn treftadaeth, a chryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnerth yn

ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae hyn yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal: Dros dair blynedd a hanner, bydd y prosiect hwn yn gwarchod llong o arwyddocâd rhyngwladol sydd mewn perygl. Bydd yn gwneud gwell defnydd o'r Casgliad Cydnabyddedig cysylltiedig drwy ailadrodd ac adfywio arddangosfeydd. Ochr yn ochr â hyn bydd rhaglen o waith i adeilad Discovery Point sy'n hanfodol i helpu Dundee Heritage Trust i ddod yn fwy cynaliadwy yn ariannol ac yn amgylcheddol.

Bydd y prosiect yn ymgymryd â cham nesaf y gwaith atgyweirio i RRS Discovery yn unol â'r cynllun rheoli cadwraeth, yn ymgorffori cyfleoedd datblygu sgiliau lle bo modd ac yn gwerthuso'r ymagwedd at gadwraeth er mwyn llywio atgyweiriadau a dysgu'r sector ehangach yn y dyfodol. Bydd rhaglen o waith cyfalaf ar Discovery Point yn unol â'r cyllidebau sydd ar gael i ailgyflunio gofodau er mwyn creu mwy o gyfleoedd cynhyrchu incwm, gwella'r man addysg, gwella hygyrchedd a chyfleusterau cysylltiedig a gwella perfformiad amgylcheddol.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb o'r prosiect: Bydd RRS Discovery yn destun ail gam o waith atgyweirio mawr i'r stansiynau a bydd crud addasadwy yn cael ei ddylunio i atal afluniad a galluogi atgyweiriadau i'r gragen. Bydd hyn yn caniatáu i'r llong gael ei rhoi ar y d?r eto. Yn ystod y gwaith, bydd sgiliau treftadaeth adeiladu llongau sydd mewn perygl difrifol yn cael eu rhannu gyda chriw a gwirfoddolwyr craidd yr Ymddiriedolaeth a bydd y broses gadwraeth yn destun gwerthuso unigol i gefnogi dysgu'r sefydliad a'r sector ehangach. Bydd gwaith cyfalaf ar Discovery Point yn ailgyflunio gofodau i greu mwy o gyfleoedd cynhyrchu incwm. Bydd cymysgedd o welliannau i raglenni craidd a'r profiad ymwelwyr, adnoddau wedi'u diweddarau, gweithdai, llwybrau a rhaglenni ysgolion wedi'u targedu. Y nod yw bod yn amgueddfa ac atyniad ymwelwyr achrededig yn y tymor hwy gyda manau a chyfleusterau digwyddiadau cysylltiedig.

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â dyfarniadau unigol, 2024

Gwybodaeth rheoli cymhorthdal mewn perthynas â Bourne Town Hall

Dyddiad y grant: 28 Tachwedd 2024

Dyddiad dod i ben y grant: 30 Mawrth 2029

Cyfeirnod: NL-21-00059

Granti: Bourne Town Hall Trust

Categori buddiolwr: Menter fach

Swm y cymhorthdal: Dyfarniad grant: £3,296,204. Cyfanswm cost y prosiect: £3,662,449

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a

Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: ?Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiect treftadaeth yn y DU. Rhaglen ariannu ydyw sy'n canolbwyntio ar warchod a gwerthfawrogi treftadaeth ar gyfer y presennol a'r dyfodol, cefnogi adferiad byd natur a chynladwyedd amgylcheddol, cefnogi gwell gynhwysiad, amrywiaeth, mynediad, a chyfranogiad mewn treftadaeth, a chryfhau treftadaeth i fod yn addasol ac yn gydnerth yn ariannol, gan gyfrannu at gymunedau ac economïau. Mae hyn yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal:?Diben y cynllun gwaith cyfalaf hwn yw achub treftadaeth drwy ymdrin â chostau uchel atgyweirio Bourne Town Hall a'r dirywiad i'r adeiladwaith hanesyddol drwy gynllun atgyweirio sy'n cynnwys y to, y gwaith maen a'r ffasâd calchfaen. Bydd y prosiect yn tynnu addasiadau anaddas o'r 20fed ganrif, yn creu mynediad ffisegol drwyddo draw ac yn gosod cyfleusterau addas yn yr adeilad i gyflwyno cynllun busnes y buddiolwr, gan gefnogi cynladwyedd sefydliadol. Mae mesurau carbon isel wedi'u hymgorffori mewn dyluniadau i amddiffyn yr amgylchedd, gan gynnwys pypiau gwres ffynhonnell aer a phaneli solar. Byddai atgyweirio ac aildddefnyddio'r adeilad yn annichonadwy heb arian cyhoeddus am fod costau'r gwaith atgyweirio'n gorbwyso unrhyw gynnydd mewn gwerth yn sgil y gwaith. Mae'r arian cyhoeddus yn darparu buddion cadwraeth, addysg a mynediad ac yn fwy nag unrhyw fudd preifat.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal:?Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU. Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.?

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal:?Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.?

Crynodeb prosiect:?Bydd y prosiect yn trawsnewid Hen Neuadd y Dref restredig Gradd II i greu hyb cyntaf Bourne i'r celfyddydau a diwylliant, a'i hybu fel cyrchfan i'r gymuned wledig a'r ardaloedd cyfagos. Bydd mynedfa a gofod croeso newydd yn cael eu creu gyda mynediad gwastad a fydd yn parhau drwy gydol yr adeilad. Bydd yr hen farchnad 'shambles' yn cael ei throsi'n ofod cymunedol hyblyg gyda chyfleusterau cegin a bar, ar gyfer cerddoriaeth fyw, digwyddiadau cymdeithasol, lluniaeth cyn a theatr a marchnadoedd.

Bydd y llys ar y llawr cyntaf yn cael ei addasu i fod yn ofod amlbwrpas i 80 o bobl gyda llwyfan a seddi y gellir eu tynnu'n ôl ar gyfer perfformiadau, sioeau sinema, gweithdai ac arddangosfeydd. Bydd mesanîn yn cael ei greu ar gyfer offer technegol a llwyfan wyllo ar gyfer y bwrdd rhoddwyr. Bydd t?r y cloc yn cael ei adfer a'i weithredu gyda'r gloch wreiddiol a'r mecanwaith cloc gwreiddiol wedi'i ailgomisiynu. Bydd dehongliad wedi'i ymwreiddio drwy gydol yr adeilad, gan ganolbwyntio ar dair thema: rhoddwyr lleol sydd wedi ariannu Hen Neuadd y Dref, storïau am ei hanes cymdeithasol a'i thrawsnewidiad yn ganolfan greadigol.

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â grant i The Bonsall Framework Knitters' Workshop

Dyddiad y grant: 17 Hydref 2024

Dyddiad dod i ben y grant: 30 Medi 2029

Cyfeirnod: NL-24-00449

Granti: Adam Hill a Samantha Deakin Hill

Categori buddiolwr: Mentrau Bach a Chanolig eu Maint

Swm y cymhorthdal: £210,225

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Rhaglen ariannu ar gyfer prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol y DU ac yn cyflwyno ein pedair egwyddor fuddsoddi: achub treftadaeth, diogelu'r amgylchedd, cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad a chynladwyedd sefydliadol. Yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal: Y diben yw mynd i'r afael â chostau uchel atgyweirio'r eiddo at safonau cadwraeth sy'n briodol i'w bwysigrwydd fel adeilad rhestredig. Byddai atgyweirio ac aildefnyddio'r adeilad yn annichonadwy heb arian cyhoeddus am fod costau'r gwaith atgyweirio'n gorbwyso unrhyw gynnydd mewn gwerth yn sgil y gwaith. Mae'r atgyweiriadau'n galluogi deall pwysigrwydd hanesyddol yr adeilad ac i'r cyhoedd elwa trwy ddeall treftadaeth yr ardal o wau â ffrâm.

Mae'r arian cyhoeddus yn darparu buddion cadwraeth, addysg a mynediad ac yn fwy nag unrhyw fudd preifat. Mae adfer y gweithdy gweuwr â ffrâm yn creu cyfle ar gyfer nifer cyfyngedig o unedau llety gwyliau tymor byr, felly mae ffrwd incwm cynaliadwy ar gyfer cynnal a chadw parhaus a chostau gweithredu'r adeilad, y rhaglen addysgol a'r wefan.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus. Nid yw perchnogion preifat ased treftadaeth yn gymwys oni bai y gellir dangos bod y budd cyhoeddus yn drech nag unrhyw fudd preifat.

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli penderfynu dirprwyedig a gynullwyd yn arbennig.

Crynodeb o'r prosiect: Nod y prosiect hwn yw atgyweirio a darparu defnydd newydd ar gyfer siop gwau â ffrâm rhestredig Gradd II bwysig o 1737 yn Bonsall, Swydd Derby, fel canolfan ddysgu i warchod a dathlu treftadaeth ddiwydiannol leol tra'n codi ymwybyddiaeth o'r grefft o wau â ffrâm sydd mewn perygl difrifol. Mae'r adeilad wedi'i leoli ar gyrion Safle Treftadaeth y Byd Derwent Valley Mills ac fe'i nodir fel yr enghraifft orau sydd wedi goroesi o weithdy gwau â ffrâm traddodiadol yn Swydd Derby, er bod ei gyflwr yn fregus a'i fod mewn perygl o gael ei golli. Mae'r cyllid yn talu am adfer adeilad y gweuwr â ffrâm a mynediad agored tymor hwy i weithdy'r gweuwr at ddibenion addysgol.

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â grant i Tilbury on the Thames Trust

Dyddiad y grant: 14 Hydref 2024

Dyddiad dod i ben y grant: 31 Mawrth 2029

Cyfeirnod: NL-21-00202

Granti: Tilbury on the Thames Trust

Categori buddiolwr: Mentrau Bach a Chanolig eu Maint

Swm y cymhorthdal: £4,478,313

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Rhaglen ariannu ar gyfer prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol y DU ac yn cyflwyno ein pedair egwyddor fuddsoddi: achub treftadaeth; diogelu'r amgylchedd; cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad; a chynladwyedd sefydliadol. Yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

Diben y cymhorthdal: Bydd y cymhorthdal yn caniatáu i Tilbury on the Thames Trust adfer adeilad yr orsaf reilffordd restredig Gradd II* a gweddill yr elfennau o ganopi'r fynedfa ac adeilad Tilbury Riverside Arts Activity Centre (TRAAC). Bydd caffi newydd, gofod digwyddiadau, arddangosfeydd treftadaeth a mannau creadigol yn cyfuno defnyddiau masnachol a chyfleusterau cymunedol i wella cynladwyedd.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bu'n rhaid i ymgeiswyr fod yn elusennau, sefydliadau nid-er-elw neu sector cyhoeddus.

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli penderfynu dirprwyedig a Phwyllgor a gynullwyd yn arbennig.

Crynodeb Prosiect: Bydd prosiect Back on Track: Tilbury Riverside Station yn cyflwyno prosiect adfywio a arweinir gan y gymuned gan adfer yr adeilad rhestredig a chreu mannau newydd, gan wasanaethu ymwelwyr â'r adeilad hanesyddol a'r gymuned fel rhan o strategaeth gynaliadwy hirdymor. Mae'r gweithgareddau ac allbynnau cynlluniedig yn cynnwys:

- atgyweirio unedau mewnol, swyddfa docynnau a gofod platfform Tilbury Riverside Station o'r 1920au i greu mannau dehongli/arddangos treftadaeth
- integreiddio Riverside Station fel rhan allweddol o Tilbury Riverside trwy fynediad uniongyrchol newydd i Fferi Tilbury-Gravesend
- creu gofod caffi gyda golygfeydd trawiadol o'r afon, gan ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer hamdden a chymdeithasu i drigolion, ymwelwyr a theithwyr mordeithiau/fferis
- adrodd hanes yr Empire Windrush a symudiad nwyddau, pobl a syniadau trwy Tilbury dros amser
- adeiladu ymdeimlad o gysylltiad ac ymlyniad cymunedol trwy raglen addysg a datblygu sgiliau, digwyddiadau, dehongli a chynllun grantiau cymunedol
- defnydd masnachol o'r eiddo (gosodiadau creadigol)

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â grant i Bartneriaeth Ogwen

Prosiect: Yr Hen Bost – Canolfan Dreftadaeth

Dyddiad y grant: 10 Hydref 2024

Cyfeirnod: HA-24-00635

Granti: Partneriaeth Ogwen

Dyddiad dod i ben y grant: 1 Tachwedd 2026

Categori buddiolwr: Mentrau bach a chanolig eu maint (MBaCh)

Swm y cymhorthdal: £247,251

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu'r Gronfa Treftadaeth) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol Etc 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Rhaglen ariannu ar gyfer prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth ledled y DU, yn rhanbarthol ac yn lleol sy'n cyflwyno pedair egwyddor fuddsoddi strategol: achub treftadaeth; diogelu'r amgylchedd; cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad; a chynladwyedd sefydliadol.

Diben y cymhorthdal: Bydd y cymhorthdal hwn yn helpu cefnogi datblygiad 'Yr Hen Bost', a fydd yn trawsnewid adeilad gwag yn ganolfan dreftadaeth gymunedol, caffi ac unedau busnes.

Cymhwysedd ar gyfer y cymhorthdal: Bydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ysbrydoli, yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer treftadaeth gynaliadwy a ffyniannus yn y DU.

Sail dros gyfrifo'r cymhorthdal: Costau'r prosiect fel y nodir yng nghais y granti ac wedi'u hasesu a'u dilysu gan staff y Gronfa Treftadaeth a'r paneli argymhell a phenderfynu a gynullwyd yn arbennig.???

Crynodeb o'r prosiect: Prosiect dwy flynedd yw hwn i droi adeilad gwag, sef y swyddfa bost a siopau pentref gynt, yn ganolfan dreftadaeth, canolfan grefftau, caffi a fflat, i wasanaethu'r gymuned leol a thwristiaid. Byddai gwaith cyfalaf ar yr adeilad yn cael ei ddilyn gan ddatblygiad y ganolfan dreftadaeth a gweithgareddau ymgysylltu cysylltiedig gan gynnwys digwyddiadau, arddangosfeydd, darlithoedd a gweithdai yn canolbwyntio ar dreftadaeth leol, wedi'u cyflwyno gyda phartneriaid lleol. Bydd hefyd yn ariannu Rheolwr Treftadaeth newydd, ochr yn ochr â phrynu cesys arddangos sy'n addas ar gyfer arddangosfeydd a chaban recordio ar gyfer cofnodi hanesion llafar.

Gwybodaeth Rheoli Cymhorthdal mewn perthynas â grant i Re-Form Heritage

Dyddiad y grant: 9 Hydref 2024

Dyddiad dod i ben y grant: 30 Mawrth 2026

Cyfeirnod: NL-24-00465

Granti: Re-Form Heritage

Categori buddiolwr: Mentrau Bach a Chanolig eu Maint

Swm y cymhorthdal: £249,954

Sail gyfreithiol y cymhorthdal: Mae gan Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (y corff corfforaethol sy'n gweithredu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol) b?er statudol i ddyfarnu grantiau o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1980 a Deddf y Loteri Genedlaethol 1993.

Amcan polisi: Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw ein rhaglen agored ar gyfer pob math o brosiectau treftadaeth yn y DU. Rhaglen ariannu ar gyfer prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, rhanbarthol a lleol y DU ac yn cyflwyno ein pedair egwyddor fuddsoddi: achub treftadaeth; diogelu'r amgylchedd; cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad; a chynladwyedd sefydliadol. Yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

